# Cronfa Pensiwn Prifysgol Caerdydd – Datganiad Gweithredu ar gyfer blwydydyn cyllid diweddu 31 eg o Orffennaf 2022

## 1. Diben

Mae'r Datganiad Gweithredu hwn yn adrodd ar sut, ac i ba raddau, y cydymffurfiwyd â'r polisïau fel y'u nodir yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (“SIP”) Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (y “Cynllun”) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022. Adolygwyd hyn mewn perthynas â pholisïau pleidleisio a stiwardiaeth, gwrthdaro buddiannau ac ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys arfer hawliau (gan gynnwys pleidleisio) ac ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu mewn perthynas â buddsoddiadau'r Cynllun. Yn ogystal, mae'r Datganiad hwn hefyd yn rhoi crynodeb o'r ymddygiad pleidleisio a'r pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwriwyd yn ystod y flwyddyn adrodd.

## 2. Cefndir

O dan y gofynion rheoliadol sydd bellach mewn grym, rhaid i Ymddiriedolwyr Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol ddatgan eu polisi ar arfer yr hawliau sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiadau, ac ar ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu mewn perthynas â'r buddsoddiadau. Mae hefyd yn ofynnol i ymddiriedolwyr adrodd ar sut, ac i ba raddau, y maent wedi dilyn y polisi hwn ac ar bleidleisiau arwyddocaol.

Cynhyrchwyd y Datganiad hwn yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Datgelu Gwybodaeth) 2013, Rheoliadau'r Gronfa Diogelu Pensiynau (Gwasanaeth Pensiynadwy) a Chynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi a Datgelu) (Diwygio ac Addasu) 2018 a Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Buddsoddi a Datgelu) (Diwygio) 2019 fel y'u diwygiwyd a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Paratowyd y Datganiad hwn gan yr Ymddiriedolwyr, gyda chymorth eu Hymgynghorydd Buddsoddi (Quantum Advisory).

Mae cyfeiriadau yma at weithredoedd, gwaith adolygu neu benderfyniadau'r Ymddiriedolwyr yn cyfeirio at weithgarwch a gyflawnwyd gan naill ai'r Ymddiriedolwyr, neu'r Ymgynghorydd Buddsoddi ar ran yr Ymddiriedolwyr.

## 3. Crynodeb gweithredol

Yn ystod blwyddyn y Cynllun, mae’r Ymddiriedolwyr:

- Wedi adolygu'r strategaeth fuddsoddi.
- Drwy eu hymgynghorwyr buddsoddi, wedi adolygu gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu'r cronfeydd sy'n buddsoddi mewn ecwiti. Yn gyffredinol, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod rheolwyr buddsoddi'r Cynllun wedi cyflawni eu dyletswyddau stiwardiaeth yn briodol.
- O'r farn eu bod wedi cydymffurfio â'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol fel y'u nodwyd yn y SIP.
- Wedi parhau i fod yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol fel y nodwyd yn y SIP ac wedi cael mewnbwn gan eu Hymgynghorydd Buddsoddi i gynorthwyo cydymffurfiaeth barhaus.

Nid yw'r gweithgareddau stiwardiaeth ar gyfer cronfeydd nad ydynt yn dal ecwiti wedi cael eu hadolygu fel rhan o'r ymarfer hwn, gan fod yr Ymddiriedolwyr yn credu bod llai o gyfle i ddylanwadu ar yr arferion o fewn trefniadau o'r fath.

## 4. Adolygiadau o'r SIP dros flwyddyn y Cynllun

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau:

- Bod y SIP wedi'i ddiweddaru yn ystod blwyddyn y Cynllun ym mis Rhagfyr 2021 i ymgorffori'r newidiadau i strategaeth fuddsoddi'r Cynllun ac i fanylu ar sut y gall aelodau fynegi eu barn ar faterion anariannol.
- Bydd y SIP yn cael ei adolygu yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau i'r polisi buddsoddi sy'n deillio o adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi neu newidiadau mewn rheoleiddio yn cael eu hadlewyrchu. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn gofyn am gyngor gan yr Ymgynghorydd Buddsoddi ar y SIP ac addasrwydd y buddsoddiadau.

## 5. Investment Manager's votiPolisïau a gweithgarwch pleidleisio a stiwardiaeth

### Polisïau pleidleisio a stiwardiaeth ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr, trwy eu hymgynghorwyr buddsoddi, yn ystyried sut mae ffactorau stiwardiaeth yn cael eu hintegreiddio i'r prosesau buddsoddi wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro rheolwyr buddsoddi presennol.

Ni all yr Ymddiriedolwyr gyfarwyddo sut mae pleidleisiau'n cael eu harfer ac nid ydynt wedi defnyddio darparwr gwasanaethau pleidleisio drwy ddirprwy yn ystod y flwyddyn. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi disgresiwn llawn i'r rheolwyr buddsoddi ynghylch penderfyniadau pleidleisio ac ymgysylltu.

Fel rhan o'r ymarfer hwn, mae'r Ymddiriedolwyr, trwy eu Hymgynghorydd Buddsoddi, wedi adolygu gweithgareddau pleidleisio a pholisïau stiwardiaeth y cronfeydd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod rheolwyr buddsoddi'n cymryd rhan mewn ymddygiad pleidleisio sy'n gyson â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun fel y'u nodir yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (SIP).

Dros flwyddyn y cynllun, mae gweithgareddau pleidleisio'r cronfeydd canlynol wedi cael eu hadolygu:

- Cronfa BNY Mellon Real Return
- CronfaLGIM Dynamic Diversified
- Cronfa LGIM World Equity Index – GBP wedi'i diogelu
- Cronfa M&G Episode Allocation
- CronfaPartners Group Generations

### Polisïau a gweithdrefnau pleidleisio a stiwardiaeth rheolwyr

Nodir manylion polisïau pleidleisio a stiwardiaeth y rheolwyr yn Atodiad 1. Yn yr adolygiad hwn, adolygwyd i ba raddau y mae'r rheolwyr buddsoddi yn defnyddio unrhyw wasanaethau cynghori a phleidleisio drwy ddirprwy, yn ogystal â'r aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr, drwy eu hymgynghorydd buddsoddi, yn fodlon bod polisïau a gweithdrefnau pleidleisio a stiwardiaeth y rheolwyr buddsoddi wedi'u halinio â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun dros flwyddyn y Cynllun.

## Ystadegau pleidleisio

Mae'r tabl isod yn nodi'r ystadegau allweddol ar gymhwysedd pleidleisio a gweithredu dros y flwyddyn.

| Ystadegyn | Cronfa Enillion Real BNY Mellon | M&G Episode Allocation Cronfa | LGIM World Equity Index – GBP Cronfa wedi'i diogelu [2] | LGIM Dynamic Diversified Fund[2] | Partners Generations Fund[2] |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y daliadau ecwiti | 68 | Amherthnasol [1] | 2,632 | 6,905 | 71 |
| Cyfarfodydd y meddir ar gymhwystra i bleidleisio ynddynt | 85 | 13 | 3,156 | 9,483 | 72 |
| Penderfyniadau y meddir ar gymhwystra i bleidleisio arnynt | 1,385 | 227 | 38,574 | 97,704 | 1,009 |
| Cyfran y penderfyniadau cymwys y pleidleisiwyd arnynt (%) | 100.0 | 96.9 | 99.8 | 99.8 | 100.0 |
| Pleidleisiau o blaid rheolwyr (%) | 88.4 | 91.8 | 79.0 | 77.7 | 95.5 |
| Pleidleisiau yn erbyn rheolwyr (%) | 11.6 | 8.2 | 20.3 | 21.6 | 2.4 |
| Pleidleisiau yr ymataliwyd rhagddynt (%) | 0.0 | 0.0 | 0.7 | 0.7 | 2.1 |
| Cyfarfodydd lle'r oedd o leiaf un bleidlais yn erbyn rheolwyr (%) | 44.0 | 58.0 | 75.1 | 71.3 | 23.6 |
| Y pleidleisiau'n groes i argymhelliad yr ymgynghorydd dirprwyol(%) | 10.0 | 4.6 | 14.3 | 12.9 | 0.9 |

Ffynhonnell: Rheolwyr buddsoddi sylfaenol y cynllun. [1] Sylwer, ar ddyddiad yr adroddiad hwn, nid oedd yr wybodaeth hon ar gael. [2] Nodwch fod LGIM ond yn adrodd gwybodaeth am bleidleisio bob chwarter a Partners Group ond yn adrodd bob chwe mis. Mae'r wybodaeth ar gyfer y ddau felly wedi'u darparu fel ag yr oedd ar 30 Mehefin 2022.

Yn gyffredinol, mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon â lefel y gweithgarwch pleidleisio a gynhaliwyd.

## Pleidleisiau arwyddocaol yn ystod y flwyddyn adrodd

Adolygodd yr Ymddiriedolwyr, drwy eu hymgynghorwyr buddsoddi, y pleidleisiau arwyddocaol a fwriwyd gan y rheolwyr buddsoddi ac yna asesu'r pleidleisiau hyn yn erbyn blaenoriaethau stiwardiaeth

y Cynllun. Pan nad yw pleidleisiau arwyddocaol y rheolwyr yn cyd-fynd â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun, bydd ymddygiad pleidleisio'r rheolwyr yn cael ei gwestiynu.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dehongli “pleidleisiau mwyaf arwyddocaol” i olygu eu dewisiadau o restr o'r “pleidleisiau mwyaf arwyddocaol” a ddarperir gan bob un o'r rheolwyr buddsoddi yn dilyn canllawiau'r PLSA.

Lle bo'n bosibl, mae'r Ymddiriedolwyr, trwy eu Hymgynghorydd Buddsoddi, wedi dewis pleidleisiau arwyddocaol sy'n ymgorffori ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) sy’n berthnasol yn ariannol. Dewiswyd pleidleisiau hefyd, lle bo hynny'n bosibl, i gynnwys gwahanol ystyriaethau ESG.

Roedd dosbarthiad pleidlais arwyddocaol y Cynllun yn cyd-fynd yn gyffredinol â'r cronfeydd a adolygwyd dros flwyddyn y Cynllun.

Ceir croestoriad o'r pleidleisiau mwyaf arwyddocaol a fwriwyd yn Atodiad 2.

# 6. Gwrthdaro buddiannau

Mae'r adran hon yn adolygu a yw'r gwrthdaro buddiannau canlynol yn effeithio ar y rheolwyr, a sut y rheolir y rhain.

1. Lle bo gan y cwmni rheoli asedau, yn gyffredinol, wrthdaro ymddangosiadol mewn perthynas â chleientiaid, e.e. mae'r rheolwr yn darparu cynhyrchion neu wasanaethau sylweddol i gwmni y mae ganddo hefyd ecwiti neu ddaliad bond ynddo;

2. Lle bo uwch-staff yn y cwmni rheoli asedau yn dal rolau (e.e. aelod o'r Bwrdd) mewn busnes y mae gan y cwmni rheoli asedau ddaliadau ecwiti neu fondiau ynddo;

3. Lle bo gan staff stiwardiaeth y cwmni rheoli asedau berthynas bersonol ag unigolion perthnasol (e.e. ar y Bwrdd neu ysgrifenyddiaeth y cwmni) mewn busnes y mae gan y cwmni ddaliad ecwiti neu ddaliad bond ynddo;

4. Lle bo buddiannau cleientiaid gwahanol yn dargyfeirio. Enghraifft o hyn fyddai trosfeddiannu, lle mae un set o gleientiaid yn agored i'r targed, a set arall yn agored i'r caffaelwr; a

5. Lle bo yna wahaniaethau rhwng polisïau stiwardiaeth rheolwyr a'u cleientiaid.

### BNYM/Newton

Mae Newton yn rheoli RRF BNY Mellon.

Mae Newton wedi cadarnhau na chawsant eu heffeithio gan unrhyw wrthdaro buddiannau o fewn y Gronfa dros flwyddyn y Cynllun. Roedd y Gronfa yn flaenorol yn destun gwrthdaro yn deillio o bwyntiau 1 a 4 o'r rhestr uchod oherwydd sefyllfa o fewn cwmni buddsoddi yn ystod blwyddyn flaenorol y Cynllun. Gwerthwyd y buddsoddiad hwn yn Ch3 2020 ac o ganlyniad ni fu unrhyw wrthdaro buddiannau dros y cyfnod a ystyriwyd.

### LGIM

Mae LGIM wedi ymatal rhag gwneud sylwadau uniongyrchol ar ba rai o'r gwrthdaro buddiannau, y manylir arnynt uchod, y maent yn cael eu heffeithio gan y cronfeydd a ddewiswyd. Cafodd y mater o’r gwrthodiad hwn i roi sylw uniongyrchol ar y cronfeydd a ddewiswyd ei godi gan yr Ymddiriedolwyr. Yn lle darparu ymateb uniongyrchol, cyfeiriodd LGIM yr Ymddiriedolwyr at eu polisi gwrthdaro buddiannau, sy'n cynnwys sawl enghraifft o wrthdaro a sut y gellid rheoli'r rhain.

Mae’r polisi hwn ar gael yma:
https://www.lgim.com/api/epi/documentlibrary/view?id=1116980ea5bf43fa9801c212be73f487&old=literature.html? cid= Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cael copi o'r polisi gwrthdaro buddiannau.

### M&G Investments

Cadarnhaodd M&G na fu unrhyw wrthdaro buddiannau yn ystod y cyfnod.

Hefyd, rhyddhaodd M&G bolisi datgelu gwrthdaro buddiannau sy'n tynnu sylw at ffynonellau posibl o wrthdaro o fewn y cwmni a sut mae'r rhain yn cael eu rheoli. Mae hwn wedi'i rannu'n amrywiaeth o wahanol gategorïau ac mae'n darparu dogfen gadarn i'r cwmni gyfeirio ati.

Mae’r ddogfen hon ar gael yma:
https://www.mandg.co.za/media/31857/conflict-of-interest-policy.pdf

## Partners Group

O ran tueddiad rhestredig Partners Group, hyd eithaf eu gwybodaeth, nid yw pwyntiau 1, 3, 4 a 5 yn effeithio arnynt. O ran pwynt 2, nododd Partners Group, ar gyfer buddsoddiadau uniongyrchol mewn ecwiti preifat a seilwaith preifat, eu bod fel arfer yn ceisio caffael cwmnïau lle mae ganddynt sefyllfa ecwiti mwyafrif, a rheolaeth ar y busnes hwnnw (70-90% + ecwiti). Gyda hyn, mae Partners Group yn penodi eu huwch weithwyr (fel uwch weithwyr proffesiynol buddsoddi) i gymryd swyddi ar fyrddau'r cwmnïau. Yn ogystal, byddai Partners Group hefyd yn penodi Cyfarwyddwyr gweithredol. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod hyn yn briodol ar gyfer y dosbarth asedau hwn.

# Atodiad 1 – Polisïau a gweithdrefnau pleidleisio rheolwyr buddsoddi

## BNYM/Newton

Mae pennaeth buddsoddi cyfrifol Newton ("RI") yn gyfrifol am broses gwneud penderfyniadau'r tîm RI wrth adolygu penderfyniadau ar faterion dadleuol mewn cyfarfodydd. Nid ydynt yn cynnal polisi pleidleisio drwy ddirprwy llym. Yn lle hynny, mae'n well gan Newton ystyried amgylchiadau unigol cwmni, eu rhesymeg buddsoddi ac unrhyw weithgareddau ymgysylltu ynghyd â deddfau llywodraethu, canllawiau ac arferion gorau perthnasol. Gall materion dadleuol gael eu cyfeirio at y dadansoddwr diwydiant priodol i wneud sylwadau a, lle bo'n berthnasol, gallant ymgynghori gyda'r cwmni neu bartïon eraill â diddordeb am eglurhad pellach, i ddod i gyfaddawd, neu i gyflawni ymrwymiad gan y cwmni.

Mae Newton yn cyflogi amrywiaeth o ddarparwyr ymchwil sy'n cynorthwyo yn y broses o wneud penderfyniadau pleidleisio, gan gynnwys ymgynghorwyr dirprwyol fel ISS. Maent yn defnyddio ISS at ddibenion gweinyddu pleidleisio drwy ddirprwy, yn ogystal â'i adroddiadau ymchwil ar gyfarfodydd cwmnïau unigol.

Er mwyn osgoi amheuaeth, Newton sy'n gwneud pob penderfyniad pleidleisio. Dim ond mewn achos o wrthdaro buddiannau perthnasol posib rhwng Newton, y cwmni buddsoddi a/neu gleient y bydd argymhellion y gwasanaeth pleidleisio (ISS) a ddefnyddir yn cael blaenoriaeth. Hefyd, dim ond o dan yr amgylchiadau hyn y gallant gofrestru ymataliad o ystyried eu safbwynt naill ai o bleidleisio o blaid neu yn erbyn unrhyw benderfyniadau arfaethedig.

## Polisïau a phroses pleidleisio LGIM

Tîm Stiwardiaeth Buddsoddi LGIM sy'n gwneud yr holl benderfyniadau pleidleisio, yn unol â dogfennau polisi Llywodraethu Corfforaethol, Buddsoddi Cyfrifol a Gwrthdaro Buddiannau LGIM, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Dyrennir sector penodol yn fyd-eang i bob aelod o'r tîm fel mai'r unigolion hynny sy'n ymgysylltu â'r cwmni perthnasol sy'n pleidleisio.

Mae tîm Stiwardiaeth Buddsoddi LGIM yn defnyddio platfform pleidleisio electronig 'ProxyExchange' ISS i bleidleisio cyfranddaliadau cleientiaid yn electronig.
Gwneir pob penderfyniad pleidleisio gan LGIM ac nid yw penderfyniadau strategol yn cael eu rhoi ar gontract allanol. Pwrpas defnyddio argymhellion ISS yw ychwanegu at ymchwil LGIM ei hun ac offer asesu perchnogol ESG, a hynny'n unig. Mae'r tîm Stiwardiaeth Buddsoddi hefyd yn defnyddio adroddiadau ymchwil Gwasanaethau Gwybodaeth Pleidleisio Sefydliadol (IVIS) i ategu'r adroddiadau ymchwil a ddaw i law gan ISS ar gyfer cwmnïau yn y DU wrth i benderfyniadau pleidleisio penodol gael eu gwneud

Er mwyn sicrhau bod y darparwr dirprwyol yn pleidleisio'n unol â safbwynt LGIM ar ESG, mae LGIM wedi rhoi polisi pleidleisio pwrpasol ar waith, ynghyd â chyfarwyddiadau pleidleisio penodol. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol i bob marchnad yn fyd-eang ac yn ceisio cynnal yr hyn y mae LGIM yn ei ystyried yn safonau arfer gorau gofynnol. Cred LGIM yw y dylai pob cwmni ledled y byd ddilyn y safonau hyn, ni waeth beth yw'r prosesau rheoleiddio neu'r arferion lleol. Mae LGIM yn cadw'r gallu ym mhob marchnad i drechu unrhyw benderfyniadau pleidleisio, hawl sy'n seiliedig ar bolisi pleidleisio arferol y cwmni. Gall hyn ddigwydd pan fydd ymgysylltiad â chwmni penodol wedi darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n caniatáu i LGIM ychwanegu troshaen ansoddol at ei ddyfarniad pleidleisio. Mae gan LGIM reolaethau monitro llym i sicrhau bod ei bleidleisiau'n cael eu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol, yn unol â'i bolisïau pleidleisio gan ei ddarparwr gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwiriad llaw rheolaidd o'r mewnbwn pleidleisiau i'r platfform, a gwasanaeth rhybuddio electronig i roi gwybod iddynt am bleidleisiau a wrthodwyd ac sy'n gofyn am weithredu pellach.

## M&G

Mae polisi pleidleisio gweithredol a gwybodus yn rhan annatod o athroniaeth buddsoddi M&G. Yn eu

barn hwy, ni ddylid byth gwahanu pleidleisio oddi wrth y gweithgaredd rheoli buddsoddiad sylfaenol. Trwy arfer eu pleidleisiau, maent yn ceisio ychwanegu gwerth at eu cleientiaid ac amddiffyn eu buddiannau fel cyfranddalwyr. Mae M&G yn ystyried y materion, yn cwrdd â'r rheolwyr os oes angen, ac yn pleidleisio yn unol â hynny. Mae M&G yn defnyddio ymchwil a ddarperir gan ISS a'r Gymdeithas Fuddsoddi; a’r platfform ProxyExchange gan ISS ar gyfer rheoli eu gweithgarwch pleidleisio drwy ddirprwy.

## Polisïau a phroses bleidleisio Partners Group

Pan fydd cyfrifon cleientiaid Partners Group yn cynnwys gwarantau ecwiti rhestredig mewn rhaglenni pwrpasol/bwcedi dyrannu ("Buddsoddiadau Marchnadoedd Preifat Hylifol") a bod gan Partners Group ddisgresiwn i bleidleisio drwy ddirprwy sy'n deillio o warantau o'r fath ("Cais Dirprwyol"), bydd Partners Group yn gwneud penderfyniad ar Geisiadau Dirprwyol o'r fath i ddiogelu a hyrwyddo gwerth economaidd y gwarantau a ddelir mewn cyfrifon cleientiaid o'r fath.

Gall Ceisiadau Dirprwyol sy'n ymwneud â buddsoddiadau Marchnadoedd Preifat Hylifol gael eu gweinyddu gan ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti (Glass Lewis ar hyn o bryd). Bydd y darparwyr gwasanaeth hyn yn dilyn Cyfarwyddeb Pleidleisio drwy Ddirprwy Partners Group ym mhob achos. Pe bai argymhelliad pleidleisio gan ddarparwr gwasanaeth yn erbyn yr argymhelliad gan reolwyr y cwmni perthnasol, bydd Partners Group yn pleidleisio â llaw ar y cynigion hynny.

Mewn rhai amgylchiadau, mae Partners Group yn cael Ceisiadau drwy Ddirprwy am warantau a fasnachir yn gyhoeddus. Pan fydd Ceisiadau am Ddirprwy o'r fath yn codi, bydd y derbynnydd, yn nodweddiadol y tîm buddsoddi priodol neu Partners Group Guernsey yn gwasanaethu yn rôl gweinyddwr, yn ei anfon ymlaen i gael ei adolygu a'i werthuso gan y Gwasanaethau Trafodiadau, ynghyd â'r tîm buddsoddi perthnasol a/neu'r Pwyllgor Buddsoddi perthnasol.
Mae gan Partners Group ffurflen grŵp sy'n ceisio sicrhau bod pob Cais am Ddirprwy, a gynhwysir yn y term ehangach 'gweithredoedd corfforaethol', yn cael ei adolygu a'i brosesu mewn modd amserol.

## Atodiad 2 – Y pleidleisiau mwyaf arwyddocaol

Mae'r tablau isod yn nodi croestoriad o bleidleisiau arwyddocaol a wnaed gan reolwyr buddsoddi'r cronfeydd a ddelir gan y Cynllun. Mae gwybodaeth am bleidleisiau arwyddocaol pellach a gynhaliwyd gan reolwyr buddsoddi'r Cynllun wedi cael ei hadolygu gan yr Ymddiriedolwyr drwy eu hymgynghorydd buddsoddi.

### Cronfa BNY Mellon Real Return

| Enw'r cwmni | Alphabet Inc. | Bayer AG |
|---|---|---|
| **Dyddiad y bleidlais** | 01 Mehefin 22 | 29 Ebrill 22 |
| **Crynodeb o'r penderfyniad** | Adroddiad ar y Gymuned —Effaith ar yr amgylchedd | Cadarnhau Iawndal Swyddogion Gweithredol a Enwir |
| **Blaenoriaeth stiwardiaeth** | Amgylcheddol | Llywodraethu corfforaethol |
| **Maint y daliant (% o'r portffolio)** | 1.0 | 1.1 |
| **Sut y pleidleisiodd y cwmni** | O blaid cynnig cyfranddaliwr | Yn erbyn rheolwyr |
| **A oedd y bleidlais yn erbyn y rheolwyr ac a gafodd hyn ei fynegi ymlaen llaw?** | Yn erbyn y rheolwyr ac ni chafodd ei fynegi ymlaen llaw | Yn erbyn y rheolwyr ac ni chafodd ei fynegi ymlaen llaw |
| **Ar ba feini prawf y barnwyd bod y bleidlais** yn **'arwyddocaol'** | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â ffactorau amgylcheddol. Mae hyn oherwydd bod y bleidlais hon yn ymwneud â risg dŵr yn y gymuned, gan fod y cwmni wedi ymrwymo i ailgyflenwi cefnau deuddwr o amgylch ei swyddfeydd a'i ganolfannau data a byddai mwy o ddatgeliad yn sicrhau bod buddsoddwyr yn gallu asesu'r cynnydd hwn. | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol. Mae hyn oherwydd bod y bleidlais yn ymwneud â'r iawndal gweithredol, lle nad yw'r iawndal gweithredol yn cyd-fynd yn llwyr â pherfformiad y cwmni. |
| **Canlyniad y bleidlais** | Methu | Methu |
| **A yw'r ymddiriedolwr/rheolwr asedau yn bwriadu cynyddu ymdrechion stiwardiaeth?** | Ni roddodd Newton sylw penodol ond byddant yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi a monitro cynnydd cwmnïau a lefel y farchnad | Ni roddodd Newton sylw penodol ond byddant yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi a monitro cynnydd cwmnïau a lefel y farchnad |

Ffynhonnell: Newton.

## Cronfa LGIM Dynamic Diversified

| Enw'r cwmni | Apple Inc. | Microsoft Corporation |
|---|---|---|
| **Dyddiad y bleidlais** | Mawrth 22 | Tach 21 |
| **Crynodeb o'r penderfyniad** | Adroddiad ar yr Archwiliad Hawliau Sifil | Ethol Satya Nadella yn gyfarwyddwr |
| **Blaenoriaeth stiwardiaeth** | Cymdeithasol | Llywodraethu corfforaethol |
| **Maint y daliant (% o'r portffolio)** | 0.4 | 0.4 |
| **Sut y pleidleisiodd y cwmni** | Ar gyfer | Yn erbyn |
| **A oedd y bleidlais yn erbyn y rheolwyr ac a gafodd hyn ei fynegi ymlaen llaw?** | Ni ddarparwyd argymhellion gan y rheolwyr, ond nid yw pob pleidlais yn cael ei mynegi i'r rheolwyr ymlaen llaw. | Ni ddarparwyd argymhellion gan y rheolwyr, ond nid yw pob pleidlais yn cael ei mynegi i'r rheolwyr ymlaen llaw. |
| **Ar ba feini prawf y barnwyd bod y bleidlais** yn **'arwyddocaol'** | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â ffactorau cymdeithasol. Mae hyn oherwydd bod y bleidlais yn ymwneud â mwy o adrodd ar hawliau sifil ac amrywiaeth. | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol. Mae hyn oherwydd bod y bleidlais yn ymwneud â gwahanu swyddogaethau'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol at ddibenion rheoli risg a goruchwylio. |
| **Canlyniad y bleidlais** | Llwyddo | Llwyddo |
| **A yw'r ymddiriedolwr/rheolwr asedau yn bwriadu cynyddu ymdrechion stiwardiaeth?** | Bydd LGIM yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi, gan ddadlau dros eu safbwynt ar y mater hwn yn gyhoeddus a monitro cynnydd cwmni a lefel y farchnad. | Bydd LGIM yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi, gan ddadlau dros eu safbwynt ar y mater hwn yn gyhoeddus a monitro cynnydd cwmni a lefel y farchnad. |

Ffynhonnell: LGIM.

### Cronfa LGIM World Equity Index – GBP wedi'i diogelu

| Enw'r cwmni | Meta Platforms, Inc. | NVIDIA Corporation |
|---|---|---|
| **Dyddiad y Bleidlais** | Mai 22 | Mehefin 22 |
| **Crynodeb o'r penderfyniad** | Ei gwneud yn ofynnol cael Cadeirydd Bwrdd Annibynnol | Ethol Harvey C Jones yn Gyfarwyddwr |
| **Blaenoriaeth stiwardiaeth** | Llywodraethu corfforaethol | Cymdeithasol |
| **Maint y daliant (% o'r portffolio)** | 0.8 | 0.7 |
| **Sut y pleidleisiodd y cwmni** | Ar gyfer | Yn erbyn |
| **A oedd y bleidlais yn erbyn y rheolwyr ac a gafodd hyn ei fynegi ymlaen llaw?** | Yn erbyn argymhelliad y rheolwyr. Nid yw pob pleidlais yn cael ei chyfathrebu i'r rheolwyr ymlaen llaw. | Ni ddarparwyd argymhellion gan y rheolwyr, ond nid yw pob pleidlais yn cael ei mynegi i'r rheolwyr ymlaen llaw. |
| **Ar ba feini prawf y barnwyd bod y bleidlais** yn **'arwyddocaol'** | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol. Mae hyn oherwydd bod y bleidlais yn ymwneud â gwahanu'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol. | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â ffactorau cymdeithasol. Mae hyn oherwydd bod y bleidlais i gefnogi amrywiaeth rhywedd a mwy o gynrychiolaeth gan fenywod ar y bwrdd. |
| **Canlyniad y bleidlais** | Methu | Llwyddo |
| **A yw'r ymddiriedolwr/rheolwr asedau yn bwriadu cynyddu ymdrechion stiwardiaeth?** | Bydd LGIM yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi, gan ddadlau dros eu safbwynt ar y mater hwn yn gyhoeddus a monitro cynnydd cwmni a lefel y farchnad. | Bydd LGIM yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi, gan ddadlau dros eu safbwynt ar y mater hwn yn gyhoeddus a monitro cynnydd cwmni a lefel y farchnad. |

Ffynhonnell: LGIM.

### Cronfa M&G Episode Allocation

| Enw'r cwmni | Wells Fargo & Cwmni | JP Morgan Chase & Co. |
|---|---|---|
| **Dyddiad y Bleidlais** | 26 Ebrill 22 | 17 Mai 22 |
| **Crynodeb o'r penderfyniad** | Adroddiad ar Barchu Hawliau Pobl Frodorol | Adroddiad ar Dargedau Absoliwt ar gyfer Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a Ariennir yn unol ag Ymrwymiadau Sero Net |
| **Blaenoriaeth stiwardiaeth** | Cymdeithasol | Amgylcheddol |
| **Maint y daliant (% o'r portffolio)** | Heb ei ddarparu | Heb ei ddarparu |
| **Sut y pleidleisiodd y cwmni** | O blaid cynnig cyfranddaliwr | O blaid cynnig cyfranddaliwr |
| **A oedd y bleidlais yn erbyn y rheolwyr ac a gafodd hyn ei fynegi ymlaen llaw?** | Yn erbyn y rheolwyr ac ni chafodd ei gyfathrebu ymlaen llaw. | Yn erbyn y rheolwyr ac ni chafodd ei gyfathrebu ymlaen llaw. |
| **Ar ba feini prawf y barnwyd bod y bleidlais** yn **'arwyddocaol'** | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â ffactorau cymdeithasol. Mae hyn oherwydd bod y bleidlais hon yn ymwneud â datgeliad cynyddol ar ystyriaeth y cwmni i hawliau pobl frodorol. | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â ffactorau amgylcheddol. Mae hyn oherwydd bod y bleidlais yn ymwneud â mwy o ddatgeliad ar dargedau allyriadau er mwyn caniatáu i fuddsoddwyr fonitro cynnydd yn fwy cywir. |
| **Canlyniad y bleidlais** | Methu | Methu |
| **A yw'r ymddiriedolwr/rheolwr asedau yn bwriadu cynyddu ymdrechion stiwardiaeth?** | Ni roddodd M&G sylw penodol ond byddant yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi a monitro cynnydd cwmnïau a lefel y farchnad | Ni roddodd M&G sylw penodol ond byddant yn parhau i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi a monitro cynnydd cwmnïau a lefel y farchnad |

Ffynhonnell: M&G.

## CronfaPartners Group Generations

Ni roddodd Partners Group fanylion y pleidleisiau a gynhaliwyd o ganlyniad i'r daliadau ecwiti nad ydynt yn gyfystyr â maint digon mawr o'r gronfa. Fodd bynnag, roedd Partners Group yn gallu darparu enghreifftiau o ymdrechion ESG y cwmni portffolio. Ceir dwy enghraifft isod.

| Enw'r cwmni | VSB Renewables Platform | Civica |
|---|---|---|
| **Crynodeb o ymdrechion y cwmni** | Menter VSB yn Mynd yn Wyrdd<br><br>Mae'r cwmni'n ceisio gwella aliniad unedau busnes a'i weithwyr â natur cyfeillgar i'r hinsawdd y cwmni. Roedd un o'r mentrau yn cynnwys asesu allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 gyda chymorth ymgynghorydd allanol. Un o nodau hanfodol y mentrau hyn i VSB yw lleihau ei ôl troed carbon. | Yn dilyn y cynnydd mewn achosion COVID-19 yn India, cynyddodd Civica ei gymorth yn y rhanbarth, gan gynnwys cefnogaeth i BAPS Shri Swaminarayan Mandir, sydd wedi sefydlu ysbyty pwrpasol, 500 gwely i ddarparu cymorth meddygol i bobl Vadodara. Cododd Civica arian hefyd i gefnogi sefydlu uned gofal dwys i sicrhau mynediad i gleifion at beiriannau anadlu, ocsigen, bwyd a meddygaeth, wrth ariannu prynu monitorau cleifion yn uniongyrchol. |
| **Blaenoriaeth stiwardiaeth** | Amgylcheddol | Cymdeithasol |
| **O ran pa feini prawf y mae hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun?** | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â ffactorau amgylcheddol. Mae hyn oherwydd bod hyn yn ymwneud ag asesu allyriadau a gwella ôl troed carbon y cwmni. | Aliniad â blaenoriaethau stiwardiaeth y Cynllun mewn perthynas â ffactorau cymdeithasol. Mae hyn oherwydd bod hyn yn ymwneud â sefydlu cefnogaeth i gymunedau lleol mewn perthynas â phandemig y Coronafeirws. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg. |
| **A yw'r ymddiriedolwr/rheolwr asedau yn bwriadu cynyddu ymdrechion stiwardiaeth?** | Bydd Partners Group yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â chwmnïau buddsoddi mewn perthynas â ffactorau ESG, gan hyrwyddo newidiadau cadarnhaol o fewn cwmnïau buddsoddi. | Bydd Partners Group yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â chwmnïau buddsoddi mewn perthynas â ffactorau ESG, gan hyrwyddo newidiadau cadarnhaol o fewn cwmnïau buddsoddi. |

Ffynhonnell: Partners Group.